

Rebecca Evans AC/AM  
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Minister for Social Services and Public Health



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-RE-1669-17

Lawrence Conway  
Cadeirydd Dros Dro  
Chwaraeon Cymru  
Gerddi Sophia  
Caerdydd  
CF11 9SW

11 Mai 2017

## LLYTHYR CYLCH GWAITH CHWARAEON CYMRU 2017-18

Rwy'n ysgrifennu atoch i amlinellu cylch gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwaraeon Cymru yn 2017-18.

Caiff blaenoriaethau'r flwyddyn sy'n dod eu pennu yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu newydd, '*Symud Cymru Ymlaen*', a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae '*Symud Cymru Ymlaen*' yn amlinellu'r agenda strategol, ond rydym yn mynd i'r afael â'r rhaglen lywodraethu hon mewn ffordd sy'n fwriadol wahanol i'r hyn a wnaed gennym yn y gorffennol. I baratoi ar gyfer yr heriau sy'n wynebu Cymru, rydym yn gwybod bod rhaid inni gynllunio ar gyfer y tymor hir a chydweithio ag eraill a all ein helpu i wireddu ein huchelgais ar gyfer Cymru. Yn y cyd-destun hwn, ac yn sgil yr adolygiad o Chwaraeon Cymru a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Mai 2017, mae'n debygol y byddaf yn anfon llythyr cylch gwaith diwygiedig atoch yn yr haf. Ar y sail hon, rydym wedi ymrwymo i lunio ac i gyflawni pedair strategaeth drawsbynciol, sef Uchelgais a Dysgu, Iach ac Egniol, Ffyniannus a Diogel, Unedig a Chysylltiedig.

Un o brif amcanion y Llywodraeth hon fydd ffyniant i bawb – thema sy'n cyfleu ein huchelgais i gynorthwyo unigolion i lwyddo. Wrth inni wneud hynny, bydd hefyd angen inni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wneud ein gorau glas i sicrhau cydraddoldeb, ond gan gydnabod cyfyngiadau'r dulliau sydd ar gael gennym. O ran y strategaeth lach ac Egniol, mae hyn yn golygu bod angen inni ddiffinio'r ffordd y byddwn yn mynd ati i wella iechyd a llesiant pawb, a bydd hyn yn gosod sylfaen ar gyfer ein hamcanion addysg a chyflogaeth ac yn mynd ymhell tu hwnt i'r GIG.

Drwy'r strategaethau hyn, byddwn yn canolbwyntio ar wneud newid sylweddol i'r ffordd yr ydym yn pennu materion cymdeithasol ystyfnig a chymhleth y mae angen mynd i'r afael â nhw ar y cyd â phartneriaid, a'r ffordd yr ydym yn trin a thrafod y materion hyn. O barhau i wneud yr un pethau, ni fydd modd inni wneud y cynnydd yr ydym am ei wneud, felly ni all y strategaethau fod yn gyfuniad o'r gweithgareddau sydd eisoes yn digwydd. Yn y pen draw, byddwn yn mesur llwyddiant yn ôl yr hyn sydd wedi newid i bobl Cymru.

Bydd yr amcanion llesiant yn llywio cwmpas y strategaethau, gan roi cyfle inni gael hyd i atebion newydd i'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu a dangos ein bod yn achub ar y cyfle a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i feddwl ac i weithio mewn ffordd wahanol.

Dylai Chwaraeon Cymru barhau i bennu amcanion llesiant sy'n sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni nodau'r Ddeddf, gan wneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Dylai eich Cynllun Busnes ar gyfer 2017-18 gydweddu â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) a saith nod y Ddeddf. Dylai'r Cynllun nodi'n glir iawn sut y bydd Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod popeth y mae'n ei wneud, popeth y mae'n ei hwyluso neu'n dylanwadu arno, a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu, yn cael effaith fuddiol ar y bobl a fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Wrth ichi lunio Cynllun Busnes 2017-18, rwy'n gofyn ichi ystyried sut y bydd Chwaraeon Cymru'n cyfrannu at ein Rhaglen Lywodraethu, '*Symud Cymru Ymlaen*', ac yn enwedig at ein hymrwymiaadau penodol i greu Cymru lach ac Egniol. Dylai eich buddsoddiadau a'ch gweithgareddau gydweddu'n glir â'r canlyniadau cenedlaethol, a dylid eu mesur mewn ffordd sy'n dangos yn glir y berthynas uniongyrchol rhwng y strategaeth a'r effaith, yn ogystal â gwerth am arian ac adenillion mesuradwy ar fuddsoddiad.

Rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn cydweithio ag aelodau eraill o'r Grŵp Ymchwil a Mesur Gweithgarwch Corfforol i lunio system genedlaethol o ddangosyddion gweithgarwch corfforol a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol, yn cefnogi'r camau i roi'r strategaeth genedlaethol ar waith ac yn gweithredu fel ffon fesur ar gyfer canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol. Rwyf hefyd yn gwybod am y gwaith a wnaed gennych dros y 12 mis diwethaf i ystyried effaith Chwaraeon Cymru o ran nodau llesiant y Ddeddf ac am eich ymrwymiad i ddefnyddio'r ymarfer hwnnw i lywio eich penderfyniadau buddsoddi a'ch strategaeth ymchwil a gwerthuso.

Yn ystod chwarter cyntaf y cyfnod adrodd, rwy'n disgwyl ichi gytuno ar fframwaith canlyniadau a dangosyddion perfformiad, yn ogystal â strategaeth ymchwil a gwerthuso ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, gyda swyddogion Polisi Chwaraeon, ac rwy'n disgwyl i Gynllun Busnes 2017-18 roi sylw iddynt. Mae'r gwaith a wnaed yn ddiweddar gan eich swyddogion chi a'm swyddogion i i bennu'r canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon cymunedol yn ddechrau da, ond bydd angen iddynt ystyried y canlyniadau a'r camau gweithredu a bennir yn y strategaeth lach ac Egniol. Byddaf yn anfon atodiad i'r llythyr hwn atoch maes o law i gadarnhau'r canlyniadau hynny, y dangosyddion perfformiad, y dull o'u mesur, a'r ffordd y byddwn yn monitro cynnydd.

Ceir cadarnhad o'ch cymorth grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 yn **Atodiad A**.

Rhaid i'ch buddsoddiadau fynd i'r afael â'r agendâu iechyd, cydraddoldeb a threchu tloidi. I gefnogi'r camau i roi '*Symud Cymru Ymlaen*' ar waith, dylent gynorthwyo pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig a chreu cyfleoedd newydd i'n pobl ifanc tlotaf, i bobl anabl, ac i grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dylai'r buddsoddiadau ddarparu rhaglenni sy'n ymgysylltu â phobl mewn cymunedau nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, neu gymunedau sy'n cymryd rhan ond nad ydynt yn bodloni'r lefelau gweithgarwch a argymhellir gan y Prif Swyddog Meddygol. Hoffwn ichi bwysu a mesur sut y gall partneriaid newydd a llwybrau ymgysylltu arloesol gyflawni newid sylweddol o ran y mater hwn, gan dreialu rhaglenni newydd lle bo'n briodol. Dylai'r buddsoddiadau hefyd gefnogi'r rheini sydd eisoes yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol i'w hannog i barhau i wneud hynny'n rheolaidd, ac i bennu a datblygu talent.

Rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru barhau i arwain a chynorthwyo'r sector i wella llywodraethu ac arweinyddiaeth, ac rwyf hefyd yn disgwyl iddo fod yn sefydliad enghreifftiol drwy roi'r holl egwyddorion llywodraethu da ar waith yn ei holl bolisiau, gweithgareddau ac ymddygiadau. Rwy'n disgwyl gweld camau gweithredu yng Nghynllun Busnes 2017-18 a fydd yn sicrhau bod y dulliau o fesur perfformiad Chwaraeon Cymru'n cynnwys barn eich rhanddeiliaid a'ch partneriaid. Am resymau tryloywder ac atebolrwydd, rwyf hefyd am ichi gyhoeddi ar eich gwefan yr egwyddorion, y meini prawf, y broses sgorio a'r dyraniadau ariannol ar gyfer buddsoddiadau mewn partneriaid.

Dylech barhau â'r gwaith o ddatblygu dull newydd o fynd i'r afael â chwaraeon a hamddena corfforol cymunedol. Rwyf hefyd am ichi gomisiynu adolygiad allanol o'ch rhaglenni chwaraeon ar gyfer ysgolion, 5x60 ac Amlsgiliau a Champau'r Ddraig, a'r ddau gynllun Nofio am Ddim, gan roi adroddiad imi erbyn yr hydref 2017. Rwyf am wybod a ydynt wedi cyflawni'r canlyniadau a bennwyd ar gyfer plant a phobl ifanc pan gawsant eu cyflwyno'n wreiddiol neu ers iddynt gael eu diwygio, ac a allant gael mwy o effaith ar y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rwy'n disgwyl i'm swyddogion fod yn rhan o'r drafodaeth i gytuno ar fanyleb dendro'r adolygiadau a'u cymeradwyo cyn eu cyhoeddi.

Hoffwn ichi hefyd roi mwy o flaenoriaeth i'r ffordd y mae Chwaraeon Cymru'n dylanwadu ar ddarparu a rheoli cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru, yn helpu'r sector i gael gafael ar arian grant o amryw o ffynonellau, ac yn cefnogi'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol lle bo modd.

Mae chwaraeon elít yn dal i fod yn un o'r prif feysydd y mae Chwaraeon Cymru'n canolbwyntio arno, ac mae'n iawn ei fod yn gwneud hynny. Rwy'n disgwyl i'r fframwaith y cytunir arno gyda'm swyddogion a Chynllun Busnes 2017-18 gynnwys rhai canlyniadau a mesurau perfformiad perthnasol i gadarnhau'r cynnydd a'r amcanion a nodir yn y strategaeth newydd, Strategaeth Chwaraeon i'r Elít. Rwy'n edrych ymlaen at weld canlyniad eich gwaith i adeiladu system elít, a'r cysylltiadau â llwybr chwaraeon ehangach y cyrff llywodraethu cenedlaethol i sicrhau bod pob person ifanc talentog yn cael ei gefnogi a bod cynifer o'n pobl dalentog â phosibl yn cael eu canfod, eu cyfarwyddo a'u datblygu. Roeddwn yn falch o gytuno ar fuddsoddiad ychwanegol i gefnogi Gemau Cymru 2017.

Rwy'n edrych ymlaen at gael rhagor o wybodaeth dros y misoedd nesaf am y modd y mae'r digwyddiad yn gwneud cyfraniad dilys a chynaliadwy i chwaraeon perfformiad yng Nghymru a sut y bydd yn cynhyrchu nawdd neu incwm masnachol i gefnogi'r digwyddiad yn y dyfodol. Bydd cytundeb grant ar wahân yn cadarnhau'r cyllid ychwanegol a ddarperir yn 2017-18 i gefnogi costau digwyddiad Gemau Cymru yn 2017.

Rwy'n gwybod bod Chwaraeon Cymru wedi ymrwmo i gynyddu'r incwm masnachol y mae'n ei gynhyrchu i ategu buddsoddiad cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r ddwy ganolfan genedlaethol yng Ngerddi Sophia a Phlas Menai'n parhau i weithredu gyda chymhorthdal cyhoeddus ac rwy'n awyddus i gael gwybod am eich gweledigaeth hirdymor ar gyfer y ddwy ganolfan. Mae hefyd yn bwysig annog cyrff llywodraethu cenedlaethol i ddibynnu llai ar arian cyhoeddus ac i gael gafael ar fuddsoddiad o ffynonellau eraill, ac rwy'n croesawu'r cydweithio rhwng Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â'r amcan hwn.

Mae Llywodraeth Cymru am weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwy helaeth ac am i nifer y siaradwyr gyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae gan y sector chwaraeon rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi'r nod hwn, felly rwy'n gofyn ichi wneud mwy o ymdrech yn y maes hwn. Mae Chwaraeon Cymru'n gorff dynodedig o dan ddeddfwriaeth Safonau'r Gymraeg. Rwy'n gwybod eich bod eisoes wedi ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau ac rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i hybu, hwyluso a chynorthwyo'r sefydliadau a ariennir gennych i gefnogi blaenoriaeth y Llywodraeth i sicrhau bod y Gymraeg yn ennill ei phlwyf ym mywyd y genedl o ddydd i ddydd.

Yn olaf, ac wrth inni barhau â'n rhaglen o flynyddoedd thematig i gefnogi ein diwydiant twristiaeth, rwy'n gofyn ichi barhau i gydweithio'n agos â'm swyddogion a chyrrff chwaraeon eraill i gefnogi rhaglenni 'Blwyddyn Chwedlau' 2017 a 'Blwyddyn y Môr' 2018.

**Rebecca Evans AC**

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**CYLLID CYMORTH GRANT**

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth grant o £22.515m i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2017-18. Isod, nodir manylion y gyllideb. Mae'n cynnwys darpariaeth barhaus i roi'r fenter Nofio am Ddim ar waith, a mwy o gyllid cyfalaf i gefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adnewyddu'r canolfannau cenedlaethol.

**Dyraniad y gyllideb cymorth grant**

	<b>Cynlluniau 2017-18 (£000oedd)</b>
<b>Refeniw (bron yn arian parod)</b>	
Costau rhedeg	1,327
Nofio am Ddim	3,750
Gwariant cyfredol	19,936
Derbyniadau cyfredol	-3,700
<b>Cyfanswm refeniw (bron yn arian parod)</b>	<b>21,313</b>
<b>Cyfalaf</b>	
Gwariant cyfalaf	423
<b>Cyfanswm cyfalaf</b>	<b>423</b>
<b>Dyraniad nad yw'n arian parod</b>	
Dibrisiant	779
<b>Cyfanswm nad yw'n arian parod</b>	<b>779</b>
<b>Cyfanswm y cymorth grant</b>	<b>22,515</b>

Cyfanswm y cymorth grant yw uchafswm y ddarpariaeth ac mae'n seiliedig ar adnoddau. Rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru gadw at ffigurau'r llinell wariant hon cyhyd ag y bo modd a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau rhagamcanol cyn gynted â phosibl drwy'r cyfarfodydd monitro chwarterol. Byddwn yn parhau i dalu cymorth grant ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â chynnwys y Ddogfen Fframwaith.

Caiff perfformiad Chwaraeon Cymru ei fesur yn ôl y cynnydd a wneir yn erbyn y blaenoriaethau strategol a nodir yn y llythyr cylch gwaith hwn, ynghyd â'r canlyniadau, y gweithgareddau, y dangosyddion a'r mesurau y cytunir arnynt yn ei gynllun busnes.

Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad a chynnydd Chwaraeon Cymru drwy gyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogion a'n cyfarfodydd ni. Hoffwn ichi ddarparu adroddiad am eich perfformiad yn 2016-17 cyn ein cyfarfod yn yr haf ac adroddiad am eich perfformiad yn ystod hanner cyntaf 2017-18 cyn ein cyfarfod yn yr hydref.